# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Hydref 2013

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Vaughan Hughes (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Peter Rogers (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr D R Hughes, R Ll Jones, R.Meirion Jones, R G Parry OBE, Dylan Rees, J A Roberts, P S Rogers a Dafydd Rhys Thomas |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro,<br>Rheolydd Gwasanaethau TGCh,<br>Uwch Swyddog Datblygu AD (MW),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Aled M. Jones a Ieuan Williams. |

---

### 1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni wnaed yr un datganiad o ddiddordeb.

### 2 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf 2013.

### 3 GWEDDARLLEDU A MYNEDIAD O BELL

Cyflwynwyd – adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro a'r Rheolydd TGCh mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd bod gweddarlledu cyfarfodydd wedi ei gysylltu â darpariaethau o fewn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 i gryfhau democratiaeth leol. Y bwriad yw atgyfnerthu strwythurau a gweithrediad llywodraeth leol yng Nghymru ar bob lefel a sicrhau bod Cynghorau lleol yn ymgysylltu gyda phob rhan o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Mae pob prif Gyngor wedi cael £40k i gynorthwyo gyda gweddarlledu a threfniadau mynychu o bell ac mae pob Cyngor Cymuned hefyd wedi derbyn £500 yr un i gynorthwyo i sefydlu gwefannau.

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 rhaid i Awdurdodau Lleol wneud trefniadau i'r Aelodau fedru cymryd rhan mewn cyfarfodydd o bell. Nid yw'r gofyniad hwn wedi ei ddeddfu hyd yma ond mae'n debygol y bydd hynny'n cael ei drefnu ar gyfer Gwanwyn 2014.

Mewn perthynas â gweddarlledu adroddwyd bod trafodaethau anffurfiol wedi eu cynnal eisoes gyda chyflenwyr blaenllaw er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r cynigion a'r costau cysylltiedig ac i asesu hefyd a yw gweddarlledu yn opsiwn ymarferol. Roedd costau arwyddol ar gyfer gwasanaeth a reolir yn awgrymu y byddai'r grant yn cyllido cynllun peilot 2 flynedd ar gyfer datrysiad a gynhelir, a hynny yn seiliedig ar gostau blynyddol o gwmpas £18k y flwyddyn, ond mae'n dibynnu ar nifer o ffactorau.

Amlinellodd y Swyddogion yr adnoddau staffio sydd raid wrthynt i baratoi ar gyfer pob cyfarfod a gosod yr offer, ynghyd â'r galwadau ychwanegol ar yr Uned Gyfieithu i wasanaethu Pwyllgorau a chyfieithu mewn cyfarfodydd i bwrpas gweddarlledu.

Cafodd y Pwyllgor drafodaeth ynghylch pa rai o Bwyllgorau'r Cyngor y dylid eu gweddarlledu fel cynllun peilot a **PHENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor Sir:-**

- **Bwrw ymlaen i weddarlledu cyfarfodydd am gyfnod peilot o 2 flynedd er mwyn defnyddio'r cyllid gan Lywodraeth Cymru.**
- **Gweddarlledu cyfarfodydd y Cyngor Sir llawn, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.**
- **Awdurdodi'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro a'r Rheolydd TGCh i gaffael yr offer angenrheidiol yn seiliedig ar ddatrysiad a gynhelir.**
- **Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â mynediad o bell fel y manylwyd ar hynny yn yr adroddiad.**

## 4 CYNLLUN HYFFORDDI A DATBLYGU AELODAU

Cafwyd adroddiad llafar gan yr Uwch Swyddog Datblygu AD ar y sesiynau hyfforddi a drefnwyd ar gyfer Aelodau Etholedig, Aelodau Lleyg a Chynghorau Cymuned ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor hwn.

Roedd yr Aelodau yn ystyried y dylid rhoi hyfforddiant ar weithdrefnau cynllunio i'r Aelodau hynny nad ydynt yn Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

**PENDERFYNWYD**

- **Nodi'r adroddiad.**
- **Cyflwyno adroddiad diweddaru i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor hwn.**

## 5 ADOLYGIADAU DATBLYGIAD PERSONOL AR GYFER AELODAU

Cyflwynwyd - adroddiad gan yr Uwch Swyddog Datblygu AD mewn perthynas â'r uchod.

Fel rhan o'r cynllun datblygu a hyfforddi blynyddol a fabwysiadwyd gan y Cyngor ym Mai 2013 dywedodd y Swyddog bod ymrwymiad i gefnogi Aelodau i wneud adolygiadau datblygu personol. Cyflwynwyd yr adolygiadau hyn yn wreiddiol yn ystod 2011/12 i gynorthwyo gwaith y Cyngor tuag at gwrdd â gofynion Siarter Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau. Mae'r adolygiadau yn elfen bwysig o'r swyddogaeth datblygu aelodau ac maent yn cyfrannu tuag at ddiweddaru cynlluniau sydd wedi eu teilwrio ar gyfer Aelodau unigol a chynllun datblygu ehangach y Cyngor. Mae'r broses hon o gymorth i ddwyn sylw at unrhyw gefnogaeth mentora a all fod o fudd i waith yr Aelodau.

Gofynnwyd cwestiynau ynghylch a oedd disgrifiadau swydd wedi eu cynhyrchu ar gyfer swyddogaethau penodol o fewn y Cyngor i Aelodau Etholedig e.e. Cadeiryddion Pwyllgorau. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro fod disgrifiadau swydd wedi eu rhoi i bob Aelod i adlewyrchu eu swyddogaethau penodol.

**PENDERFYNWYD**

- **Nodi'r adroddiad**
- **Cyflwyno adroddiad gwaith i gyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn.**

## 6 SIARTER CYMRU AR GYFER CEFNOGI A DATBLYGU AELODAU – ADRODDIAD GWAITH

Cyflwynwyd – adroddiad diweddaru gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas â chynnydd o ran cais y Cyngor am statws Siarter.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro fod y Cyngor wedi derbyn sylwadau cychwynnol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn nodi ei boddhad. Roedd yn dymuno cywiro C2 yn yr atodiad sy'n cyfeirio at reidrwydd ar awdurdodau i gynnal adolygiad ynghylch a yw'n well gan Aelodau gael cyfarfodydd yn ystod y dydd ynteu gyda'r nos. Rhagwelir y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ym mis Rhagfyr ar y mater hwn.

**PENDERFYNWYD**

- **Awdurdodi'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro i ddiweddaru Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar yr atodlen sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.**
- **Cyflwyno adroddiad diweddaru i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor hwn ar y cais am statws Siarter.**

Daeth y cyfarfod i ben am 6.00p.m.

**Y CYNGHORYDD VAUGHAN HUGHES**
**CADEIRYDD**